

HYFFORDDIANT AR-LEIN I GYNGHORWYR

AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

BETH SYDD AR GAEL?

Paratowyd y deunyddiau hyfforddiant ar-lein i'ch cynorthwyo chi i ddatblygu eich corff o wybodaeth fel Cynghorydd.

Mae'r deunyddiau'n trafod 7 maes penodol, ac mae 'Amrywiaeth a Chynhwysiant' yn un ohonynt. Mae'r deunyddiau eraill yn ymwneud â Chynefino, y Cod Ymddygiad, y Cyngor yn Gyflogydd, Deall y Gyfraith, Cyllid Llywodraeth Leol ac Iechyd a Diogelwch.

RHOI CYCHWYN ARNI

Mae'r modiwl hwn yn trafod 'Amrywiaeth a Chynhwysiant' ac mae'n mynd trwy'r elfennau allweddol canlynol:-

- ▶ Codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chynhwysiant mewn bywyd cyhoeddus
- ▶ Y cyfrifoldebau ac ymrwymïadau cyfreithiol sydd gan y Cyngor a Chynghorwyr
- ▶ Ffynonellau cyngor

PWRPAS Y MODIWL

Yw eich helpu i ddeall:-

- ▶ Termau amrywiaeth a chynhwysiant
- ▶ Gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb
- ▶ Y diffiniad o hiliaeth a gwahaniaethu
- ▶ Eich rôl yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat

DATGANIAD CYDRADDOLDEB

‘Os na fyddai lleiafrifoedd gennym, fyddai dim hiliaeth gennym chwaith’

- ▶ Nid oes rhaid cael lleiafrifoedd er mwyn i bobl gael teimladau negyddol at eraill
- ▶ Mae unigolion yn dysgu ymddygiad ac maen nhw'n cael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau (e.e. y teganau y mae bechgyn a merched yn chwarae â nhw)
- ▶ Gallwch gael eich dylanwadu trwy addysg, cyfoedion, teulu, papurau newyddion, sêr pop neu'r ardal y cewch eich magu ynddi
- ▶ Mae rhagfarn unigolyn (syniad rhagdybiedig yn seiliedig ar fawr ddim ffeithiau os o gwbl) yn aml yn ffrwyth ofni'r anhysbys

DIFFINIAD O GYDRADDOLDEB

‘Trin Pobl yn ôl eu hanghenion’

- ▶ Mae unigolion yn wahanol a bydd ganddynt anghenion gwahanol
- ▶ Gallai trin pawb yr un peth arwain at driniaeth annheg
- ▶ Os yw unigolion yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion gallwn sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg
- ▶ Mae'n bwysig felly fod Cyngorau'n gofyn i'r gymuned beth yw eu hanghenion unigol

DIFFINIAD O AMRYWIAETH

‘Y ffordd yr ydym oll yn wahanol’

- ▶ Yn aml iawn gallwn weld pobl eraill mewn ffordd sy'n arwain at agweddau ac ymddygiadau negyddol tuag at bobl yr ydym yn eu hystyried yn wahanol inni
- ▶ Er enghraifft, mae mater hiliaeth yn cael ei weld yn aml yn fater o a 'ddu' a 'gwyn', ond mewn gwirionedd gall ymwneud â materion fel hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad ethnig

Beth mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei olygu? (Symudwch at y sleid nesaf)

BETH MAE CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH YN EI OLYGU?

- ▶ Mae'n golygu cydnabod a pharchu gwahaniaeth a'r amrywiaeth sy'n bodoli yn ein cymdeithas
- ▶ Mae'n golygu darparu gwasanaethau o ansawdd a chyfleoedd teg i bawb (e.e. rhoi sylw i anghenion pobl anabl)
- ▶ Mae gweithredu cadarnhaol yn golygu cymryd camau rhagweithiol i gywiro anghydbwyseddau (e.e. darparu toiledau anabl mewn adeiladau cyhoeddus)
- ▶ Mae'n golygu defnyddio adnoddau yn effeithiol a thargedu adnoddau tuag at faterion a nodwyd yn flaenoriaethau

FFRAMWAITH STATUDOL CYN 2010

Roedd gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar waith i gefnogi sefydliadau a mudiadau wrth gymryd camau i roi sylw i amrywiaeth a chynhwysiant:-

- ▶ Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- ▶ Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 (Diwygiwyd yn 1986 ac 1999)
- ▶ Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Diwygiwyd yn 2001)
- ▶ Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- ▶ Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- ▶ Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- ▶ Deddf Cydraddoldeb 2006

FFRAMWAITH STATUDOL

- ▶ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (rhoddodd y Gymraeg ar un sail cyfreithiol â'r Saesneg)
- ▶ Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Rhoddodd ddyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ei waith yn rhoi sylw dyladwy i egwyddor cydraddoldeb i bawb)
- ▶ Deddf Hawliau Dynol 1998
- ▶ Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- ▶ Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr – un o egwyddorion y Cod yw'r angen i gynghorau hyrwyddo cydraddoldeb

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Daeth y Ddeddf hon â'r holl ddeddfwriaeth gydraddoldebau flaenorol at ei gilydd o fewn un Ddeddf benodedig. Roedd angen y Ddeddf gan fod cyfraith cydraddoldebau yn cynnwys 35 Deddf, 52 Offeryn Statudol, 13 Cod Ymarfer ac 16 Cyfeireb Ewropeaidd

Roedd hyn yn cynrychioli cyfanswm o 116 darn o ddeddfwriaeth yn cynnwys 4000 o dudalennau

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn disodli pob un o'r rhain ac mae'n haws ei darllen a'i deall, sy'n golygu ei bod yn haws i gynghorau lleol ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau

PWY MAE'R DDEDDF YN EU GWARCHOD?

Mae 9 nodwedd warchodedig, sef:-

- ▶ Hil
- ▶ Rhyw
- ▶ Anabledd
- ▶ Oed
- ▶ Crefydd neu Gred
- ▶ Cyfeiriadedd Rhywiol
- ▶ Ailbennu Rhywedd
- ▶ Priodas a Phartneriaeth Sifil
- ▶ Beichiogrwydd a Mamolaeth

DYLETSWYDD SECTOR CYHOEDDUS EBRILL 2011

Mae'r ddyletswydd yn creu peiriant ar gyfer newid, gan sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i:-

- ▶ Gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddwch
- ▶ Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- ▶ Meithrin cysylltiadau da

Mae'r ddyletswydd yn cynnwys cyflogaeth yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus

Argymhellir fod eich Cyngor yn mabwysiadu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

PETHAU Y DYLECH EU GWYBOD

Mae rhai pethau pwysig iawn y dylech wybod amdanynt a byddwn yn ymdrin â'r rhain yn y pum sleid nesaf. Maen nhw'n ymwneud ag:-

- ▶ Aflonyddu
- ▶ Gwahaniaethu Uniongyrchol
- ▶ Gwahaniaethu Anuniongyrchol
- ▶ Gwiriadau Cyn Cyflogi
- ▶ Diswyddiadau Annheg

AFLONYDDU

Y diffiniad o aflonyddu yn A26 Deddf Cydraddoldeb 2010 yw 'ymddygiad digroeso yn gysylltiedig â nodwedd warchoddedig sy'n arwain at droseddu yn erbyn urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol neu dramgwyddus ar gyfer yr unigolyn hwnnw neu honno e.e. aflonyddu rhywiol, dweud jôcs budr/brwnt. Gellir dwyn achos yn erbyn y Cyngor a'r unigolion dan sylw, felly dylech fod yn ymwybodol o oblygiadau ymddygiad amhriodol ac annerbyniol.

GWAHANIAETHU UNIONGYRCHOL

Mae hyn yn digwydd pan mae rhywun yn cael eu trin yn llai ffafriol na pherson arall oherwydd nodwedd warchodedig. Mae'n cynnwys gwahaniaethu oherwydd nodwedd (e.e. cyfeiriadedd rhywiol) neu trwy eu cysylltiad â rhywun arall a chanddynt nodwedd warchodedig.

GWAHANIAETHU ANUNIONGYRCHOL

Pan mae gan sefydliad bolisiau, meini prawf neu brosesau sy'n rhoi unigolion/grwpiau dan anfantais o ran un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig e.e. pobl ag anabledd

GWIRIADAU CYN CYFLOGI

Erbyn hyn mae'n anghyfreithlon gofyn cwestiynau iechyd yn y cyfnod cyn-cyflogi ac ni chaniateir hynny nes bod y cynnig swydd wedi'i wneud – a hyd yn oed wedyn dim ond i weld a oes angen ystyried addasiadau rhesymol.

Er enghraifft, holwyd 1000 o bobl ifanc anabl oedd wedi gwneud ceisiadau am swyddi am eu profiad, a dywedodd dros 70% eu bod yn teimlo na chawsant y swydd oherwydd eu bod yn anabl.

DISWYDDIADAU ANNHEG

Gall gweithwyr wneud hawliad am ddiswyddiad annheg i Dribiwnlys Cyflogaeth os gallant ddangos fod y rheswm am y diswyddiad yn gysylltiedig ag un o'r nodweddion gwarchoddedig (e.e. anabledd/rhywedd). Nid yw'r cyfnod cymhwyso o 2 flynedd i wneud hawliad yn berthnasol mewn sefyllfaoedd o'r fath.

PRIF-FFRYDIO CYDRADDOLDEB

Ystyr prif-ffrydio cydraddoldeb yw integreiddio egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfleoedd cyfartal yng ngwaith beunyddiol y sefydliad. Mae'n golygu y dylid ystyried materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf yn rhan annatod o'r broses o lunio polisiau a darparu gwasanaethau, a dylai sicrhau cydraddoldeb ddylanwadu ar bob agwedd o waith pob unigolyn o fewn sefydliad wrth iddynt fynd ati i gyflawni eu cyfrifoldebau'

Mae defnyddio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn gallu cynorthwyo cynghorau i brif-ffrydio cydraddoldeb (gweler y sleid nesaf)

ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r rhain yn offeryn ar gyfer adnabod effaith bosib polisïau, gwasanaethau a swyddogaethau ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr. Gellir eu defnyddio i nodi rhwystrau, camau i oresgyn y rhwystrau hyn a sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion y cyhoedd. Fe'u cyflwynwyd i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus wedi cyhoeddi Adroddiad Macpherson i Ymchwiliad Stephen Lawrence.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn darparu canllawiau ar gyfer gyrff cyhoeddus wrth wneud asesiadau o'r fath:-
<https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/equality-impact-assessments>

MANTEISION PRIF-FFRYDIO

- ▶ Annog mwy o benderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth
- ▶ Gofalu fod polisiau yn cael eu targedu
- ▶ Gofalu fod mwy o wasanaethau hygyrch ac addas ar gael
- ▶ Annog sefydliadau i fod yn fwy agored am bolisi
- ▶ Gwneud i bobl deimlo mwy o hyder yn y Cyngor
- ▶ Gwella enw da'r Cyngor

BETH AM BROFI EICH HUN

Ceisiwch ateb y canlynol :-

- 1) Sut fydddech chi'n diffinio'r term 'cydraddoldeb?'
- 2) Sut fydddech chi'n diffinio'r term 'amrywiaeth?'
- 3) Enwch o leiaf bump nodwedd warchoddedig a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- 4) Beth yn eich tyb chi yw ystyr y term 'aflonyddu' yng nghydestun cydraddoldeb a chynhwysiant?
- 5) Pam mae mor bwysig prif-ffrydio amrywiaeth?

BETH NESAF?

Gan fod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn hyn, awgrymir yn gryf y dylech ofyn i'ch Cyngor roi'r cyfle ichi fynd ar gwrs hyfforddiant ar y pwnc yma.

Mae'r hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn rhyngweithiol ac mae'n archwilio holl elfennau rôl y Cyngor o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y manylder y byddech yn ei ddisgwyl gan eich corff cynrychioliadol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi ymgysylltu â Chynghorwyr er mwyn eich galluogi i rannu profiadau a dysgu oddi wrth eich grŵp cymheiriaid.